

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Marine
Management
Organisation

# Aber Afon Hafren:
# Canllaw cynllunio morol trawsffiniol

Gorffennaf 2023



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad 3**

1.1 Cyd-destun polisi 3

**2. Cynllunio morol mewn cyd-destun aber 6**

2.1 Polisïau trawsffiniol 6

2.2 Gweithredu a gwneud penderfyniadau 6

**3. Aber Afon Hafren 9**

3.1 Ystyriaethau llywodraethu 10

3.2 Ystyriaethau amgylcheddol 11

3.3 Ystyriaethau economaidd 12

3.4 Ystyriaethau cymdeithasol 15

**4. Casgliad 16**

**Ffigurau**

Ffigur 1: Ardal Cynllun Morol De Orllewin Lloegr 4

Ffigur 2: Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 5

Ffigur 3: Maint diffiniedig ac ardaloedd cynlluniau morol Aber Afon Hafren 9

Ffigur 4: Gweithgarwch presennol y sector yn Aber Afon Hafren 14


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47314, ISBN digidol 978-1-83504-274-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o bolisïau cynllunio morol ac ystyriaethau cysylltiedig sy'n berthnasol i Aber Afon Hafren. Nid yw'n cyflwyno polisi cynllunio statudol newydd na chyfrifoldebau rheoleiddio ar sectorau morol na'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu'n rhoi cyngor ar sut i wneud cais am ganiatadau.

Mae'r ddogfen hon wedi'i llunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Ei nod yw helpu i weithredu polisi cynllunio morol a rhoi eglurder ychwanegol i ddefnyddwyr morol ar brosesau rheoli a llywodraethu yn Aber Afon Hafren. Lleolir Aber Afon Hafren yn y man lle mae cyfundrefnau cynllunio morol Cymru a Lloegr yn cwrdd.

At ddibenion y ddogfen hon, ystyrir Aber Afon Hafren fel yr holl ardal o'i ffin atfor (Brean Down i Drwyn Larnog yng Nghymru drwy Ynys Echni) i derfyn pellaf y llanw. Dangosir yr ardal hon yn Ffigur 1.

Mae hanner isaf yr aber o fewn ardal Cynllun Morol De-orllewin Lloegr yng nghynlluniau morol Lloegr, ac mae'r hanner uchaf o fewn ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (gweler Ffigur 1). Mae ecosystem aber afon Hafren yn cwmpasu ardaloedd cynlluniau morol Cymru a Lloegr a thu hwnt.

Mae'r ddogfen hon yn mynd law yn llaw â chanllawiau, tystiolaeth a pholisïau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau anstatudol i ategu cynllunio morol yng Nghymru a Lloegr. Dylid ei darllen fel atodiad i **Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru** a **Chynllun Morol De-orllewin Lloegr**, ac ar y cyd â nhw.

## 1.1 Cyd-destun polisi

Mae cynllunio morol yn y Deyrnas Unedig (DU) yn cael ei lywodraethu gan **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir** (y Ddeddf) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi cynlluniau morol ac yn rhoi cyfrifoldebau ar Awdurdodau Cyhoeddus i wneud penderfyniadau perthnasol yn unol â'r cynlluniau hynny. Mae **Datganiad Polisi Morol y DU (MPS)** yn darparu fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol a'r cyd-destun polisi cynllunio lefel uchel sy'n arwain cynllunio morol cenedlaethol (ac is-genedlaethol). Mae hefyd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer ardal forol y DU gyfan, sef cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.

Yn ôl y Ddeddf, *"a marine plan authority must take all reasonable steps to secure that [its] plan is compatible with the marine plan for any [other] marine plan area"*, yn ogystal ag unrhyw gynllun daearol perthnasol. Mae'r MPS yn adeiladu ar y gofyniad hwn ac yn nodi bod yr awdurdodau cynllunio wedi ymrwymo i *"the co-ordination of marine planning across administrative boundaries"* sy'n cynnwys *"planning for activities which extend across national or Marine Plan area boundaries"*.

Cafodd Cynllun Moral Cenedlaethol Cymru ei fabwysiadu gan Weinidogion Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Mabwysiadwyd Cynllun Morol De-orllewin Lloegr gan Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 23 Mehefin 2021. Ar gyfer ardal forol Cymru, mae Cynllun Moral Cenedlaethol Cymru yn cynnwys gweledigaeth ac amcanion ar gyfer ardal y cynllun sy'n cefnogi gweledigaeth y DU ac Amcanion Morol Lefel Uchel, fel y'u nodir yn yr MPS. Yn Lloegr, mae'r dull gweithredu ychydig yn wahanol gan fod gweledigaeth y DU ac Amcanion Morol Lefel Uchel wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

**Ffigur 1: Ardal Cynllun Morol De Orllewin Lloegr**





**Figure 2: Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**



# 2. Cynllunio morol mewn cyd-destun aber

## 2.1 Polisïau trawsffiniol

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol De-orllewin Lloegr yn cynnwys polisïau penodol ar gydweithrediad ar draws ffiniau a chydnawsedd ar draws cynlluniau[1]. Mae'r polisïau hyn yn gosod cyd-destun a gofynion gwaith a phenderfyniadau trawsffiniol.

Yn ogystal â'r polisïau trawsffiniol penodol, mae gan bolisïau cynllunio morol eraill berthnasedd trawsffiniol. Er enghraifft, yn aml mae gweithgareddau'n digwydd ar draws ffiniau ardaloedd cynllunio morol. Hefyd, gall effeithiau gweithgarwch ymestyn dros ôl troed ehangach na'r gweithgarwch ei hun, megis effeithiau carthu neu seilwaith ar raddfa fawr neu oherwydd natur drawsffiniol nodweddion ecosystemau, megis mamaliaid morol.

Mae ymgysylltu rheolaidd a rhannu tystiolaeth a data rhwng awdurdodaethau yn agwedd bwysig ar gydnawsedd trawsffiniol. Mae Llywodraeth Cymru a'r MMO wedi ymrwymo i gydweithio, yn enwedig o ran cynllunio ar gyfer ardaloedd trawsffiniol. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth o ardaloedd y cynlluniau, adnoddau naturiol a defnydd dynol ochr yn ochr â pholisi cynllunio, mae'r ddau barti yn cynnal ac yn diweddaru pyrth ar-lein yn rheolaidd – **Porth Cynllunio Morol Cymru** ac **Explore Marine Plans** gyda data gofodol morol perthnasol.

## 2.2 Gweithredu a gwneud penderfyniadau

Dylai penderfyniadau yn Aber Afon Hafren, a allai effeithio ar yr ardal forol, gael eu gwneud yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol De-orllewin Lloegr, a phob cynllun statudol cyfagos, yn rhai morol a daearol, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau a datblygiad o fewn ardal yn cefnogi amcanion y Llywodraethau ar gyfer ardal y cynlluniau ac nad ydynt yn achosi effeithiau niweidiol sylweddol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol De-orllewin Lloegr yn cynnwys polisïau sy'n mynnu bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol, wrth wneud eu penderfyniadau, yn rhoi sylw i ddogfennau allweddol er mwyn sicrhau integreiddio digonol â chyfundrefnau cynllunio eraill. Yn bwysig, pan fo posibilrwydd y gallai penderfyniad effeithio ar fuddiannau Cymru, dylai penderfyniadau ystyried blaenoriaethau polisi Cymru a'u gofynion deddfwriaethol. Yn yr un modd, pan fo posibilrwydd y gallai penderfyniad effeithio ar fuddiannau Lloegr, dylai penderfyniadau ystyried blaenoriaethau polisi a gofynion deddfwriaethol Lloegr.

Y gwahanol bolisïau o'r Cynlluniau sy'n ffinio yw'r sail ar gyfer penderfyniadau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ystyried achosion unigol ac, fel arfer, byddent yn cael eu sbarduno gan ystyriaethau megis lleoliad, maint a natur effeithiau tebygol, polisïau cynlluniau perthnasol a materion eraill.

Dylai cynigion ddarparu tystiolaeth o ystyriaeth briodol a chydnawsedd â chynlluniau statudol perthnasol ac unrhyw ddeunydd atodol cysylltiedig perthnasol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall sut mae'r cynnig wedi ystyried polisi cynllunio perthnasol, ac yn gydnaws ag ef. Fel y nodir yn y Cynlluniau,

1 Polisi GOV_02 'Cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-CBS-1 'Cross-border co-operation' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr..

dylent ddangos ystyriaeth o unrhyw effeithiau trawsffiniol perthnasol, gan gynnwys unrhyw effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol neu andwyol tebygol, a mynd i'r afael ag effeithiau andwyol yn unol â'r polisi cynllun morol perthnasol. Dylai'r rhai sydd o blaid ddarparu tystiolaeth o unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid perthnasol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys sectorau ac awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran ceisiadau trawsffiniol lle mae'n debygol y bydd sawl cynllun yn berthnasol a lle mae'n debygol y bydd ystod eang o bartïon â buddiant.

Ar ôl derbyn cais am awdurdodiad, cyfrifoldeb yr awdurdod cyhoeddus yw hysbysu awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill neu randdeiliaid ehangach, fel y bo'n briodol, os hoffent wneud sylwadau. Mae datblygwyr yn cael eu hannog i hysbysu'r holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys mewn unrhyw weinyddiaeth gyfagos) cyn cyflwyno cais. Dylai awdurdodau cyhoeddus gysylltu neu ymgynghori ag awdurdodau gwneud penderfyniadau perthnasol eraill, cynghorwyr statudol neu gyrff eraill fel y bo'n briodol gyda'r bwriad o gydgysylltu gweithgarwch a chysoni prosesau a phrosesau gwneud penderfyniadau lle bo hynny'n bosibl.

Yn ogystal â pholisïau a deddfwriaeth cynllunio morol a daearol, bydd angen i'r rhai sydd o blaid prosiectau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ystyried a rhoi sylw i gyd-destun polisi ehangach.

Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth berthnasol megis:

- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Deddf Cynllunio 2008.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Ymadael â'r UE) 2019.
- Deddf yr Amgylchedd 2021.

Mae hefyd yn cynnwys cynlluniau statudol ac anstatudol a pholisïau cenedlaethol perthnasol megis:

- **Datganiadau Ardal**.
- Cynlluniau Gwella Amgylcheddol.
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.
- Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.
- Cynlluniau Rheoli Traethlin.

Cydnabyddir y gallai unrhyw Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol gyflwyno cyfleoedd sylweddol i drawsnewid cymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Anogir cynigion Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sy'n gyffredinol gysylltiedig â chyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu prosiectau seilwaith mawr.

Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru ac, o'r herwydd, bydd Gweinidogion Cymru a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol yn cyfrannu at y broses ac yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cyfleu yn glir. O ran prosiectau yng Nghymru, a phrosiectau a allai effeithio ar Gymru, dylent geisio sicrhau manteision etifeddol parhaol i'r gymuned leol, yr economi a'r amgylchedd, fel y nodir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae Cynllun Morol Cymru yn nodi'r uchelgeisiau ar gyfer y manteision etifeddol parhaol hyn ( Blwch 1).

- Cefnogi cynaliadwyedd, bywiogrwydd ac ansawdd bywyd cymunedau arfordirol;
- Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol cymunedau arfordirol Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg;
- Darparu seilwaith, tai, cyfleusterau a gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gefnogi datblygiad sy'n hygyrch i'r cymunedau lletyol ac sy'n cynnig defnydd etifeddol;
- Cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy hirdymor a ffyniant lleol drwy greu cyfleoedd cyflogaeth lleol o ansawdd uchel, gan ystyried y gofynion tebygol ar gyfer hyfforddiant, a gweithio gyda sefydliadau hyfforddi cenedlaethol a'r llywodraeth;
- Cyflawni seilwaith trafnidiaeth angenrheidiol a hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy sy'n darparu cysylltedd carbon isel parhaus a budd etifeddol;
- Cyfrannu at y pontio tuag at gyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy carbon isel, lleihau allyriadau carbon a chynyddu cydnerthedd pobl, lleoedd a'r amgylchedd wrth ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd; a
- Chyfrannu at gadwraeth a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.


Darperir rhagor o wybodaeth am y broses o baratoi a chyflwyno cynigion a phrosesau gweithredu polisi cynllunio morol yn yr **Atodiad Technegol i Gynllun Morol De-orllewin Lloegr** ac **Arweiniad Cyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**.

## 3. Aber Afon Hafren

Mae dalgylch yr aber yn gartref i dros filiwn o bobl, gan gynnwys dinasoedd mawr Bryste, Caerdydd a Chasnewydd.[2] Mae amgylchedd morol a daearol yr aber yn gwneud cyfraniad pwysig o ran cefnogi bywydau a bywoliaeth pobl leol ac ymwelwyr drwy ddarparu manteision diriaethol fel dŵr, bwyd, trafnidiaeth, masnach a deunyddiau adeiladu. Mae hefyd yn darparu manteision llai diriaethol ond hanfodol bwysig megis gwasanaethau rheoli'r hinsawdd ac atafaelu carbon, yn ogystal â manteision iechyd a lles.

Mae siâp unigryw Aber Afon Hafren yn golygu mai yno mae'r amrediad llanw mwyaf yn y DU a'r ail fwyaf yn y byd. Mae hyn yn creu un o'r parthau rhynglanwol mwyaf yn y DU a nodweddir gan dywod a fflatiau llaid helaeth. Mae'r cynefin hwn yn gartref i boblogaethau sylweddol o adar mudol ac adar gaeafu a'u hysglyfaethau.

**Ffigur 3: Maint diffiniedig ac ardaloedd cynlluniau morol Aber Afon Hafren**




2 Human Environment – Severn Estuary Partnership

Mae treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yn yr aber ac mae'n gartref i grynodiad mawr o nodweddion archeolegol arfordirol sydd wedi'u cadw'n dda ac sy'n deillio o anheddiad dynol hanesyddol dros filoedd o flynyddoedd. Mae twristiaeth yn yr aber yn sylweddol ac yn codi, gyda thua 50 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn.[3] Mae hamdden morol yn yr aber yn arwyddocaol hefyd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hwylio, genweirio, ecodwristiaeth a syrffio (The Severn Bore).

Mae Aber Afon Hafren yn ardal brysur ar gyfer datblygiad a gweithgarwch morol, gan gynnwys morgludiant, carthu mordwyol, gwaredu, adeiladu a physgota. Mae'r diwydiant porthladdoedd a morgludiant yn gyflogwr sylweddol yn yr ardal, gyda phorthladdoedd prysur ym Mryste, Caerdydd a Chasnewydd. Mae porthladdoedd Aber Afon Hafren yn ymdrin yn gronnol ag oddeutu 13 miliwn tunnell o gargo ac yn cael eu defnyddio gan dros 3,500 o longau y flwyddyn.[4]

## 3.1 Ystyriaethau llywodraethu

Mae'r awdurdodau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio morol yn ardal Aber Afon Hafren yn cynnwys:

- Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr).
- Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru a Lloegr).
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Cymru).
- Natural England (Lloegr).
- Yr Arolygiaeth Gynllunio (Lloegr).
- Awdurdodau Porthladdoedd a Harbyrau (Cymru a Lloegr).
- Y Sefydliad Rheoli Morol (Lloegr).
- Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU (Lloegr a swyddogaethau a ddargedwir ar gyfer Cymru).
- Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU (Lloegr).
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU (Lloegr a swyddogaethau a ddargedwir ar gyfer Cymru).
- Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU (Lloegr).
- Llywodraeth Cymru gan gynnwys Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (Cymru).

Mae Aber Afon Hafren yn elwa ar weithgarwch Partneriaeth Aber Afon Hafren, sef menter anstatudol annibynnol sy'n cael ei harwain gan awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol, sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith o reoli'r aber. Nod Partneriaeth Aber Afon Hafren yw dod â phobl ynghyd i ddatrys problemau a gwireddu cyfleoedd i'r aber. Mae'r Bartneriaeth hon wedi cyhoeddi'r **Severn Estuary Strategy** i hyrwyddo dull integredig o ddefnyddio a mwynhau'r aber yn gynaliadwy ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at fewnbynnu i'r broses cynllunio morol.

3 Britain's visitor economy facts | VisitBritain

4 Ports and Shipping – Severn Estuary Partnership a Port and domestic waterborne freight statistics: data tables (PORT)– GOV.UK (www.gov.uk)

## 3.2 Ystyriaethau amgylcheddol

Mae Aber Afon Hafren yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau y mae llawer ohonynt wedi'u gwarchod drwy ddynodiad; mae'r rhai eraill nad ydynt wedi'u gwarchod yn benodol ond maent yn rhan bwysig o strwythur a swyddogaeth yr ecosystem.

Mae nifer o safleoedd gwarchodedig yn yr aber sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (gweler Ffigur 2 a Ffigurau 2.1 i 2.5) sy'n adlewyrchu ei gynefinoedd, ei rywogaethau a'i ddaeareg forol ac arfordirol pwysig ac amrywiol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren.
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Hafren.
- Safle Ramsar Aber Afon Hafren.
- Safle Ramsar Gwastadeddau a Rhostiroedd Gwlad yr Haf.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Afon Hafren.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Afon Hafren Uchaf.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Bae Bridgewater.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Sili.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ynys Echni.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ynys Ronech.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwlyptiroedd Casnewydd.
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Quantock Hills.
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy.

Mae cynefinoedd yn gymharol ansymudol ac mae'n rhaid ystyried effeithiau ar eu strwythur, eu swyddogaeth a'u maint ym mhob cynnig prosiect. Mae rhywogaethau'n fwy symudol, gyda rhai'n teithio dros ardaloedd mawr, a gallant fod yn fwy sensitif ar adegau penodol o'r flwyddyn. Er enghraifft, mae poblogaethau sylweddol o adar y môr wedi'u lleoli ymhob rhan o'r aber mewn cytrefi bridio (gydol y flwyddyn), ar gyfer teithiau mudo (y gwanwyn a'r hydref) a phoblogaethau gaeafu (Tachwedd i Chwefror). Mae'n bwysig cynnal silfeydd ac ardaloedd magu pysgod gydol y flwyddyn ond maent yn cael eu hystyried yn fwyaf sensitif i effeithiau pan fyddant yn lletya camau larfal rhywogaethau pysgod.

Mae angen i holl gynigion y prosiect ddangos cydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol perthnasol o ran unrhyw safleoedd sy'n cael eu gwarchod er budd cadwraeth natur. Dylent hefyd fod yn gydnaws ag unrhyw fesurau rheoli perthnasol sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y safleoedd hynny.

Y tu hwnt i ystyriaethau safleoedd gwarchodedig, mae bioamrywiaeth yr ecosystem gyfan yn bwysig i brosesau a gweithrediad yr aber a'r amgylchedd morol ehangach. Mae polisïau cynllunio[5] yn mynnu y dylai cynigion asesu arwyddocâd unrhyw effeithiau a nodwyd ar yr ecosystem forol ehangach (gan gynnwys bioamrywiaeth nad yw'n nodwedd ar safle gwarchodedig presennol), gan ystyried Aber Afon Hafren fel un ecosystem. Anogir cynigion hefyd i gyfrannu at welliant cyffredinol o ran bioamrywiaeth, neu ryw elfen gadarnhaol o adfer neu wella ecosystem, gyda'r nod o adael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.[6]

Pan fo penderfyniad awdurdodi yn cael ei wneud a allai o bosib effeithio ar ecosystemau morol Cymru, fel arfer safonol bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol ar gyfer y glannau (<12 milltir fôr), yn darparu cyngor i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Yn yr un modd, yn Lloegr, Natural England yw'r Corff Cadwraeth Natur Statudol ar gyfer y glannau (<12 milltir fôr), a bydd yn darparu cyngor i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yw'r Corff Cadwraeth Natur Statudol ar gyfer y môr (>12 milltir fôr) yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

## 3.3 Ystyriaethau economaidd

Mae economi forol lewyrchus yn cael ei chyflawni a'i chynnal, o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy, drwy gydbwyso anghenion llu o weithgareddau morol masnachol sy'n digwydd ar draws ardal yr aber, megis pysgota, dyframaethu, gweithrediadau porthladdoedd, twristiaeth a hamdden ochr yn ochr â sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i wella. Mae manteisio'n llawn ar reoli adnoddau naturiol a'u defnyddio'n gynaliadwy yn gofyn am ddealltwriaeth o'u gwerth economaidd a chymdeithasol a'r ffyrdd y maent yn darparu ystod o fanteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

5 Polisi ENV_01 'Ecosystemau morol cydnerth' yng Nghynllun Morol Cymru; Polisi SW-BIO-1 'Biodiversity' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr

6 Polisi ENV_01 'Ecosystemau morol cydnerth' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-BIO-3 'Biodiversity' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr. Am wybodaeth ychwanegol am egwyddorion gwella o ran bioamrywiaeth, gweler **A Green Future: Our 25 Year Plan to Improve the Environment** gan Lywodraeth y DU ac Egwyddorion Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n Cefnogi Adfer a Gwella mewn Cynigion Datblygiad Morol neu Arfordirol.

Mae gweithgarwch porthladdoedd a morgludiant[7] yn arbennig o gyffredin yn Aber Afon Hafren, gyda nifer o borthladdoedd rhyngwladol mawr fel Caerdydd, Bryste a Chasnewydd. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddiwydiant morgludiant cynyddol y DU, yn ogystal â chefnogi diwydiannau rhanbarthol eraill fel pysgota[8], cloddio am agregau[9], a gweithgareddau ynni adnewyddadwy morol[10] [11]. Mae Aber Afon Hafren yn gartref i lawer o weithgareddau morol eraill, gan gynnwys dyframaethu[12], twristiaeth a hamdden[13] (gweler Ffigur 3 ar gyfer gweithgareddau presennol y sector yn Aber Afon Hafren).

Mae Aber Afon Hafren yn ardal bwysig ar gyfer cloddio am agregau gan ei fod yn cynnwys ardaloedd helaeth o fanciau tywod y mae rhai ohonynt yn cael eu carthu a'r deunydd yn cael ei ddefnyddio ym maes adeiladu, felly mae'n darparu cymorth sylweddol i ddiwydiannau ar y tir.

Mae Aber Afon Hafren yn berthnasol yn nhermau cynhyrchu ynni. Mae'r aber yn gartref i orsafoedd pŵer tanwydd ffosil, gorsafoedd pŵer troi gwastraff yn ynni a gorsafoedd ynni niwclear, yn ogystal ag ynni adnewyddadwy a throi gwastraff yn ynni. Ceir cydnabyddiaeth o'r adnoddau llanw sylweddol yn yr aber, yr ail fwyaf yn y byd, gyda chyfleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni o'r cerhyntau llanw a'r amrediad llanw.

Dylai cynigion ar gyfer datblygiad neu weithgarwch newydd o fewn yr aber ystyried bodolaeth a lleoliad seilwaith a gweithgarwch sefydledig. Mae gan Gynllun Morol Cymru a Chynllun Morol De-orllewin Lloegr bolisïau sector ar gyfer diogelu cyfleusterau a seilwaith presennol neu fuddiannau sectorau o effeithiau niweidiol[14]. Lle bo'n bosibl, o fewn fframwaith cynaliadwyedd a rheoli amgylcheddol ehangach, mae'r Cynlluniau'n nodi y dylai datblygiadau morol ddigwydd mewn ardaloedd sy'n gallu cefnogi a/neu elwa ar y gweithgarwch hwnnw. Gallai hyn olygu bod y seilwaith ffisegol neu'r gweithlu medrus eisoes ar gael neu y gallai fod ar gael ar gyfer gweithgarwch, neu y gallai ardal gefnogi neu elwa ar fewnlifiad o ddatblygiad a chyflogaeth.

Dylai cynigion fod yn gynaliadwy yn economaidd, gan gynnwys gwerth am arian, manteision i gymdeithas, cymorth i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r môr, yn benodol lle maent yn ymwneud â chreu swyddi morol, a lle byddant o fudd i gymunedau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ymhob rhan o ddalgylch yr aber.

7 Polisi P&S_01 a P&S_02 'Porthladdoedd a Morgludo (Cefnogi)' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-PS-1-4 'Ports, harbours and shipping' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

8 Polisi FIS_01 'Pysgodfeydd (cefnogi)' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-FISH-1-3 'Fisheries' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

9 Polisi Agg_01 'Agregau (cefnogi)' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-AGG-1-3 'Aggregates' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

10 Polisi ELC_03 'Ynni ffrwd lanw (cefnogi) carbon isel' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-REN-3 'Renewables' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.


11 Polisi ELC_04 'Amrediad llanw (cefnogi) ynni carbon isel' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru Polisi SW-REN-3 'Renewables' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

12 Polisi AQU_01 'Dyframaeth (cefnogi)' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW_AQ_1 a SW_AQ_2 'Aquaculture' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

13 Polisi T&R_01 'Twristiaeth a Hamdden (cefnogi)' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-TR-1 'Tourism and recreation' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

14 Polisi SAF_02 'Diogelu adnoddau strategol' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Polisi SW-INF-2 'Infrastructure' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

**Ffigur 4: Gweithgarwch presennol y sector yn Aber Afon Hafren**




Wrth i'r amgylchedd arfordirol a morol o amgylch Aber Afon Hafren ddod yn fwy prysur, bydd y pwysau ar y gofod sydd ar gael yn cynyddu a bydd mwy o angen am gynllunio morol, gan helpu defnyddwyr y môr i rannu'r un gofod a gwneud y defnydd gorau o'r gofod hwnnw. Gall cydfodolaeth (lle mae datblygiadau, gweithgareddau neu ddefnyddiau lluosog yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd neu yn agos at ei gilydd yn yr un ardal, neu ar yr un pryd) gefnogi rheolaeth gynaliadwy hirdymor y rhanbarth drwy helpu i sicrhau bod manteision lluosog yn cael eu sicrhau, gan fanteisio'n llawn ar werth economaidd ardal a lleihau dosbarthiad effeithiau ar ecosystemau morol.

Dylai cynigion ystyried sut y gallant effeithio ar weithgareddau presennol a gwneud y defnydd gorau o'r gofod lle bo hynny'n bosibl. Mae cydfodolaeth neu gydleoli gweithgareddau addas, lle bo hynny'n ymarferol, yn cael ei annog gan y ddau gynllun[15]. Pan fo gwrthdaro dros ofod neu adnoddau yn codi, anogir mentrau rhwng sectorau. Mae ymgysylltiad cynnar rhwng defnyddwyr y môr a, lle bo'n berthnasol, randdeiliaid ac awdurdodau eraill yn ddull pwysig o archwilio cyfleoedd ar gyfer cydfodolaeth, a dylid datblygu hynny lle bynnag y bo'n ymarferol.

15 Polisi ECON-02 'Cydfodoli' yng Nghynllun Morol Cymru; Polisi SW-CO-1 'Co-existence' yng Nghynllun Morol De-orllewin Lloegr.

## 3.4 Ystyriaethau cymdeithasol

Mae cysylltiad agos rhwng Aber Afon Hafren a'r cymunedau lleol sydd o'i amgylch. Mae'n ffurfio rhan bwysig o'u hanes, eu diwylliant a'u ffordd o fyw. Mae llawer o bobl sy'n byw yn nalgylch yr aber yn cael eu cyflogi o fewn diwydiannau morol megis pysgota, morgludiant a phorthladdoedd, gyda llawer mwy yn gweithio mewn gweithgareddau ategol fel adeiladu llongau, prosesu pysgod, adeiladu a thwristiaeth. I eraill, mae'r aber yn darparu hamdden a threftadaeth ac yn cyfrannu at les ac ymdeimlad o le.

Mae'r aber hefyd yn ganolog i faterion cymdeithasol pwysig eraill o fewn y rhanbarth megis newid arfordirol, perygl llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd. Wrth i bolisïau cenedlaethol ynghylch datgarboneiddio, diogeledd ynni a lliniaru effeithiau newid hinsawdd edrych fwyfwy at ardal forol y DU, mae'r agweddau hyn yn debygol o ddod yn fwy arwyddocaol fyth o fewn rhanbarth Aber Afon Hafren yn y dyfodol.

Mae posibilrwydd y gallai datblygiad ardal yr aber a'r defnydd ohono effeithio ar gymeriad economaidd-gymdeithasol y cymunedau arfordirol a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy ar genedlaethau'r dyfodol. Mae angen i gynigion ystyried unrhyw effeithiau posibl ar draws dalgylch yr aber, a dylent geisio sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cymunedau arfordirol yn y dyfodol lle bo hynny'n bosibl. Dylai cynigion ystyried arwyddocâd datblygiadau posibl ar nodweddion perthnasol yr ardal hefyd, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol, morwedd ac ansawdd amgylcheddol.

## 4. Casgliad

Mae Aber Afon Hafren yn ardal ecolegol, economaidd a chymdeithasol bwysig sy'n darparu llawer o wasanaethau i'r poblogaethau o'i gwmpas. Mae Aber Afon Hafren o fewn ardal cynllun Morol Glannau De-orllewin Lloegr o gynlluniau morol Lloegr ac o fewn ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Felly, dylai unrhyw gynigion o fewn Aber Afon Hafren fod yn unol â'r ddau gynllun, yn ogystal ag unrhyw bolisi, canllawiau a thystiolaeth arall sy'n gysylltiedig â chynllun anstatudol i gefnogi cynllunio morol yng Nghymru a Lloegr. Pan fydd cynigion yn pontio ardaloedd y ddau gynllun, dylid cymhwyso polisïau'r cynllun perthnasol fel y bo'n briodol yn amodol ar ystyriaethau penodol i brosiect ac ymgynghoriad cynnar â'r ddau reoleiddiwr.

Dylai cynigion wneud y defnydd gorau o le ac ymgorffori cyfleoedd ar gyfer cydfodolaeth a chydweithredu â gweithgareddau presennol. Dylai unrhyw gynigion a allai gael effeithiau andwyol sylweddol ar weithgareddau presennol, neu ddadleoli'r gweithgareddau hynny, ddilyn canllawiau a nodir mewn polisïau perthnasol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Dylai hyn gynnwys ystyriaethau economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cefnogi strategaethau hirdymor ar gyfer cynaliadwyedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol uchelgais ar y cyd ar gyfer cydweithio parhaus ac agosach yn y dyfodol o fewn ardal Aber Afon Hafren. Mae'r ddau wedi ymrwymo i ddal ati i gydweithio a datblygu prosesau a systemau cydnaws drwy gynllunio morol.